
cymorth cymru
connect • strengthen • influence

# CARTREF i BAWB






## Cynhadledd Flynyddol Cymorth Cymru

**22 Ionawr 2026**
**Y Deml Heddwch, Caerdydd**

# Rhaglan

**9:30**

## Croeso

- Katie Dalton, Cymorth Cymru

**9:45**

## Hyrwyddo cynhwysiant ac empathi yn ein gwasanaethau a'n cymunedau

- Alicja Zalesinska, Tai Pawb
- Selima Bahadur, EYST
- Yvonne Connolly, Llamau

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r disgwrs o fewn y DU wedi tyfu'n fwyfwy gelyniaethus yn achos pobl o liw a cheiswyr lloches a llety. Drwy gydol yr amser hwn, mae darparwyr cymorth ym maes digartrefedd a thai wedi ceisio sicrhau bod eu gwasanaethau'n parhau i fod mor gynhwysol ag y bo modd. Yn aml, mae gwasanaethau'n gorfod wynebu hiliaeth, senoffobia a chamwybodaeth, tra ar yr un pryd yn sicrhau bod tenantiaid, cleientiaid a staff yn teimlo'n ddiogel ac yn cael cefnogaeth. Bydd y drafodaeth banel hon yn adlewyrchu ar yr heriau hynny, ac ar sut y gallwn barhau i hyrwyddo dull cynhwysol o fewn y sector tai.

**10:30**

## Darparu cartref da i rai a chanddynt anabledd dysgu

- Rhian Jones, Drive
- Adrian Burke, FCHA
- Oliver Townsend, Mirus
- Lisa Morgan, Dimensions/Restraint Reduction Network

Mae'r model tai â chymorth yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i alluogi pobl a chanddynt anabledd dysgu i fyw bywydau annibynnol, llawn, yn eu cymunedau eu hunain, gyda'u tenantiaeth eu hunain a chymorth person-ganolog. Fodd bynnag, mae ariannu anghynaliadwy ym maes gofal cymdeithasol, a diffyg cyflenwad o dai, yn gosod her sylweddol i'r uchelgais o ddarparu cartref i bawb, er gwaetha'r gallu i gynllunio yn y tymor hir i gwrdd ag anghenion pobl. Yn y sesiwn hon, byddwn yn clywed am bŵer tai â chymorth wrth ddarparu cartref i rai a chanddynt anabledd dysgu, yn edrych ar sefydliadau yng Nghymru sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r heriau hyn, ac yn ystyried sut y gall llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus a'r sector tai gefnogi parhad y model hwn.

**11:15**

## Toriad am luniaeth ysgafn

**11:45**

## Workshops

### Mynd i'r afael â chamwybodaeth o fewn cymunedau

- Catherine Evans, Trivallis

Gan ddilyn ymlaen o'n sesiwn gyntaf ynghylch cynhwysiant, mae'n bleser gennym groesawu Catherine Evans, Pennaeth Cyfathrebiadau yn Trivallis, a fydd yn rhannu eu dull hwy o fynd i'r afael â chamwybodaeth ymhlith eu tenantiaid a'r gymuned ehangach.

### Tai dan arweiniad y Gymuned: Ateb i ddigartrefedd?

- Joy Kent, Joy Unlimited
- Casey Edwards, Cwmpas

Rydym yn hynod falch o groesawu Casey Edwards o Cwmpas a Joy Kent, a fydd yn ystyried a allai tai dan arweiniad y gymuned chwarae rôl bwysicach mewn atal digartrefedd, ac ymateb iddo, yn enwedig yn achos pobl a chanddynt anghenion cymorth.

### Dewis a Rheolaeth: Peilota grantiau wedi eu personoli

- Sian Aldridge and Phill Stapley, The Wallich

Mae Wallich wedi bod yn rhan o gynllun peilot The Centre for Homelessness Impact sydd wedi ymchwilio i sut mae trosglwyddiadau arian parod yn effeithio ar sefyllfa tai pobl a'u diogeledd, eu lles, a'u rhyngweithio gyda gwasanaethau eraill. Yn y gweithdy hwn byddwn yn dysgu am yr effaith ar bobl yn ne Cymru.

| | |
|---|---|
| **12:45** | ***Cinio a rhwydweithio*** |

| | |
|---|---|
| **13:45** | ***Etholiad 2026: Blaenoriaethau Cymorth***<br>• **Katie Dalton, Cymorth Cymru**<br>Mae etholiad y Senedd ym mis Mai 2026 yn cynnig cyfle gwerthfawr i gyflwyno gwybodaeth i bleidiau gwleidyddol, a dylanwadu arnynt wrth iddynt geisio mandad i ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru. Gyda'r polau diweddar yn awgrymu y bydd yna newid llywodraeth, ynghyd â mewnlifiad o aelodau a phleidiau newydd, mae'r etholiad hwn yn gyfle am bersbectif newydd ar ddatblygu polisi. Yn y sesiwn hon, byddwn yn amlinellu maniffesto Cymorth, a ddatblygwyd yn dilyn ymgysylltu â'n haelodau, gweithwyr rheng-flaen ac arbenigwyr trwy brofiad. |
| **14:05** | ***Trafodaeth gyda Siân Gwenllian AS***<br>• **Siân Gwenllian AS, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai**<br>Mae'n bleser gennym groesawu Siân Gwenllian AS, sydd wedi bod yn Weinidog Cysgodol dros Dai a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai ers 2023. Yn ei rôl fel cadeirydd y grŵp trawsbleidiol, mae hi wedi cynnal ystod o drafodaethau ar ddigartrefedd, y cyflenwad o dai, a chynllunio, gydag Aelodau o'r Senedd, cynghorwyr lleol a rhanddeiliaid allweddol. Rydym wedi gwahodd Siân i adlewyrchu ar y polisi tai a digartrefedd dros dymor diwethaf y Senedd, yn ogystal â'i syniadau ar sut y gallai llywodraeth newydd ddatblygu polisi a deddfwriaeth ymhellach. Bydd y sesiwn hon hefyd yn cynnwys Holi ac Ateb gyda Siân, sy'n awyddus iawn i glywed barn a gwybodaeth arbenigol pobl o fewn y sector tai a digartrefedd. |
| **14:55** | ***Adlewyrchu ar y 6ed Senedd a gobeithion ar gyfer y 7fed***<br>• **Katie Dalton, Cymorth Cymru**<br>• **Elly Lock, Cartrefi Cymunedol Cymru**<br>• **Ruth Power, Shelter Cymru**<br>Wrth edrych ymlaen at etholiad y Senedd, pleser o'r mwyaf i ni yw croesawu cyd-weithwyr o ddau o'n partneriaid pwysicaf yn y sector tai a digartrefedd, sef Shelter Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru. Bydd Ruth ac Elly yn adlewyrchu ar ddatblygiadau allweddol mewn polisi a deddfwriaeth yn ystod tymor y Senedd gyfredol, yn ogystal ag amlinellu blaenoriaethau eu sefydliadau ar gyfer y Llywodraeth nesaf. Fel Cadeirydd Cartrefi i Gymru Gyfan, bydd Ruth hefyd yn tynnu sylw at y maniffesto a ddatblygwyd gan gydweithrediad o sefydliadau tai yn y trydydd sector, i ddangos yr uchelgais maent yn ei rhannu y bydd Llywodraeth nesaf Cymru yn darparu cartref ar gyfer pawb yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| **15:40** | ***Sylwadau clo*** |

**Rhannwch eich barn a gofynnwch gwestiynau yn ystod y gynhadledd:**

- Sganiwch y cod QR, neu
- Ewch i slido.com a nodwch y rhif #22126